# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 5 Chwefror 2024

Amser: 13.30 - 16.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13704

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Samuel Kurtz AS<br>Adam Price AS |
| Tystion: | Sam Rowlands AS<br>Manon Huws, Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Jennifer Cottle, Gwasanaeth Cyfreithiol<br>Gareth Rogers, Pennaeth y Swyddfa Gyflwno<br>Dr Dave Harvey, Aelodau'r Senedd a'u Staff Cymorth |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Anfonodd Alun Davies ymddiheuriadau.

## 2 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Sesiwn Dystiolaeth

Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sam Rowlands AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)449 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 4.1 SL(6)447 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 5.1 SL(6)440 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am fwy o eglurder.

### 5.2 SL(6)441 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am fwy o eglurder.

### 5.3 SL(6)444 – Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Gwaharddiad ar Gymryd Rhan mewn Rheoli) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

### 6.1 SL(6)435 – Cod Ymarfer Rhan 8 – Rôl Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 7 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 7.1 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Rheoliadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Gwahardd Gwasanaethau) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Weinidog yr Economi.

### 7.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Drafnidiaeth

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd.

## 8 Papurau i'w nodi

### 8.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 8.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Biliau Diwygio: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Biliau Diwygio.

### 8.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid: Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid.

### 8.4 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru: crynodeb o'r ymatebion

Nododdd y Pwyllgor grynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddiwygio tribiwnlysoedd Cymru.

### 8.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gadeirydd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 10 Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Sam Rowlands AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

## 11 Y Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft diwygiedig mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 SICM(6)4 - Rheoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024

Trafododd y Pwyllgor y memorandwm cydsyniad offeryn statudol a chytunodd i drafod adroddiad drafft yn ei gyfarfod nesaf.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i drafod adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 14 Cytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol
- Diwygiad i'r Cytundeb sy'n Sefydlu'r Banc Ewropeaidd ar gyfer Ailadeiladu a Datblygu (EBRD)
- Y DU ac Ynysoedd Philippines ar Drosglwyddo Personau sydd wedi'u Dedfrydu

Cytunodd y Pwyllgor i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau yn ei gyfarfod nesaf.

## 15 Gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan

Trafododd y Pwyllgor ei ymateb i ohebiaeth gyda'r Pwyllgor Busnes ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth yn ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a fframweithiau polisi cyffredin y DU gyfan, a chytunodd i ysgrifennu ymhellach at Gadeirydd y Pwyllgor Busnes.

## 16 Blaenraglen waith

Nododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytunodd arno.

Cytunodd hefyd i ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad cyn y sesiwn graffu arfaethedig gyda'r Cwnsler Cyffredinol ar 26 Chwefror 2024.